

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
**5 CHWEFROR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mercher, 5 Chwefror 2020.

**PRESENNOL: Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke a Dave Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Roedd y Cynghorydd Hutchinson yn bresennol fel Aelod lleol ar gyfer Eitemau 6.1 a 6.4 yr Agenda (060587 a 060374)

Roedd y Cynghorydd Haydn Bateman yn bresennol fel sylwedydd

**MEWN PRESENNOLDEB:**

Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Rheolwr Tîm - Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd – Rheolaeth Datblygu Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

**51. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson fuddiant personol a rhagfarnllyd ar eitem agenda 6.1(060587) fel llywodraethwr ysgol a fyddai'n elwa o gyfraniad ariannol addysg pe bai'r Pwyllgor yn cymeradwyo caniatâd. Rhoddwyd goddefeb iddo gan y Pwyllgor Safonau i siarad ynghlŷn â'r eitem am bum munud.

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson fuddiant personol hefyd ar eitem Agenda 6.4 (060374) fel perchennog tir gyda chaniatâd am ddatblygiad preswyl ym Mownt Pleasant, hanner i dri chwarter milltir o safle'r cais. Dywedodd nad oedd dim effaith ar ei fuddiant ar y tir hwnnw yn deillio o'r cais.

**52. SYLWEDYDDION HWYR**

Caniataodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwedyddion hwyr a ddosbarthwyd yn y cyfarfod ac a atodwyd i'r agenda ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

<http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MI d=4513&LLL=0>

**53. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod ar 8 Ionawr 2020.

Cais 060374 – Cais Llawn - Addasu Bwyty/ Bar Gwag i 13 o Fflatiau/Rhandai yn 14 Mill Lane, Bwcle.

Ynglŷn â gohirio'r cais hwn, gofynnodd y Cynghorydd Peers am gael diwygio cofnod rhif 48 i adlewyrchu ei gais i gael cyfarfod â swyddogion Cynllunio a Phrifyrdd i drafod y pryderon am y llwybr troed coll a materion eraill a godwyd yn ystod yr ymweliad safle. O ran y sylwadau hyn, ychwanegodd fod swyddogion wedi cwrdd â'r ymgeisydd ond wedi methu â chwrdd â'r Aelodau.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu, ar ôl adolygu gweddarllodiad y cyfarfod, nad oedd y Cynghorydd Peers wedi gwneud y cais penodol hwn a'i fod ond wedi gofyn i swyddogion ystyried pryderon Aelodau lleol ac am gael siarad â Phrifyrdd – yr oedd y Prif Swyddog wedi cadarnhau mai Gwasanaeth Stryd oedd yn gyfrifol am hynny, yn hytrach na Chynllunio. Felly, awgrymodd fod y cofnodion yn gywir ac aeth ymlaen i esbonio bod y pryderon a godwyd – sef y llwybr troed, diffyg ffenestri mewn ystafelloedd mewnol a materion sbwriel – i gyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad.

Cydnabuwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones a ddywedodd fod sylwadau wedi'u gwneud yn y cyfarfod y dylai swyddogion gwrdd â'r Aelodau i drafod eu pryderon. Mynegodd ei siom nadd oedd yr Aelodau wedi bod yn rhan o drafodaethau cyn cyhoeddi'r adroddiad ac y dylid gohirio'r eitem nes bod y trafodaethau hynny wedi digwydd.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr bod y trafodaethau yn ymddangos fel pe baent yn derbyn bod y cofnodion yn gofnod cywir ac y bu cyfle i godi pryderon penodol pan gafodd yr adroddiad ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Ynglŷn â datrys cais 060374, eglurodd mai'r rheswm cywir dros ohiro oedd i ddatrys materion yn ymwneud â'r dystysgrif perchnogaeth tir a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r cywiriad hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Peers, yn ogystal â'r rheswm cywir dros ohirio, y dylai'r datrysiad hefyd gynnwys bod y swyddogion yn ymchwilio i'r materion eraill a godwyd ganddo.

Cafodd y diwygiadau a gyflwynwyd gan yr Uwch Gyfreithiwr a'r Cynghorydd Peers eu symud a'u eilio gan y Cynghorwyr Bithell a Dunbar. Pan aeth hyn i bleidlais, cafodd ei gywain.

#### **PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiadau ar gofnod rhif 48 a'r datrysiad ar gyfer cais 060374, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd.

#### **54. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Ni argymhellwyd gohirio unrhyw eitemau.

**55. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Bod penderfyniadau yn cael eu cofnodi fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**56. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar gychwyn y cyfarfod, roedd 15 aelod o'r cyhoedd a dim aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.40pm)

.....  
**Cadeirydd**

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu ac mae modd eu gweld trwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu yn: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 5 CHWEFROR 2020**

<b>RHIF EITEM</b>	<b>CYNGOR TREF/CYMUNED</b>	<b>SAFLE/CYNNIG</b>	<b>SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
060587	Cyngor Tref Bwcle	Cais llawn – Dymchwel 81 Lôn Drury a Chodi 56 Annedd, Mynediad, Parcio, Mannau Agored a Gwaith Cysylltiedig yn 81 Lôn Drury, Bwcle.	Siaradodd Mr Keig yn erbyn y cais.  Ar ôl datgan buddiant personol a rhagfarnllyd a chael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau, siaradodd y Cyngorydd Hutchinson, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais.	Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog.
060667	Cyngor Cymunedol Brychdyn a Bretton	Newid Defnydd o Annedd i amlfeddiannaeth, Newidiadau i'r Cyntedd Blaen a ffurfio Cyrbau Isel ar draws ffryntiad y safle i hwyluso parcio (yn rhannol, o edrych yn ôl) yn 24 Larne Drive, Brychdyn.	Siaradodd Ms L. Jones yn erbyn y cais.	Gwrthod caniatâd cynllunio, yn erbyn argymhelliad y swyddog, yn seiliedig ar y canlynol: Nid yw'r newid defnydd yn cyd-fynd â'r Gwasanaeth Stryd, dim digon o ddarpariaeth barcio i denantiaid a'u hymwelwyr, a niwed i amodau byw.

<b>RHIF EITEM</b>	<b>CYNGOR TREF/CYMUNED</b>	<b>SAFLE/CYNNIG</b>	<b>SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
059457	Cyngor Tref Bwcle	Cais Amlinellol ar gyfer Adeiladu Dau Dŷ pâr deulawr yn 128 Mold Road, Bwcle.	Siaradodd Mr A. Franco (ymgeisydd) o blaid y cais.  Gofynnodd y Cyngorydd Heeson i'w bleidlais yn erbyn y cais gael ei chofnodi.	Bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i Rwymedigaeth Adran 106 a'r amodau yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. Amodau Ychwanegol 8, 9 a 10 ar fynediad i'r safle a dŵr wyneb fel y nodir yn y sylwedyddion hwyr.
060374	Cyngor Tref Bwcle	Cais Llawn - Addasu Bwyty/ Bar Gwag i 13 o Fflatiau/Rhandai yn 14 Mill Lane, Bwcle.	Siaradodd Mr. G. Mitchell yn erbyn y cais.  Siaradodd y Cyngorydd Hutchinson, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais.	Gwrthod caniatâd cynllunio, yn erbyn argymhelliad y swyddog, yn seiliedig ar canlynol: Effaith ar fynediad cerbydau ac egress, effaith ar amwynder preswylwyr Millers Court, diffyg gwahanu rhwng ystafelloedd cyfanheddol islaw'r safon ac effaith ar amwynder deiliaid y dyfodol oherwydd y diffyg golau a ffenestri yn ystafelloedd gwely'r llawr gwaelod.
059026	-	Materion Cyffredinol - Amrywiad Arfaethedig i Gytundeb Adran 106 - Ffarm Issa , Ffordd y Bryn , Bryn y Baal, Yr Wyddgrug.	-	Bod Cytundeb Adran 106 yn cael ei amrywio i ddarparu ar gyfer naw annedd perchentyaeth fforddiadwy a naw annedd rhent fforddiadwy.

RHIF EITEM	CYNGOR TREF/CYMUNED	SAFLE/CYNNIG	SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
<b>APÊL</b>			<b>NODWYD</b>	
059673	-	Apêl gan Sandra Roberts yn Erbyn Penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i Wrthod Caniatâd Cynllunio ar gyfer cais amlinellol ar gyfer Codi Anedd Sengl 4 Ystafell yn The Old Toll Cottage, Ffordd Whitford, Whitford - GWRTHODWYD	-	-